

Dogfen hawdd ei darllen:

Ein cynlluniau i wella gofal preswyl i bobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn erbyn 27 Ionawr
2023



Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan Gyngor
Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae hi'n fersiwn
hawdd i'w ddarllen o '**Ymgynghoriad Gofal Preswyl 2023**'.

Rhagfyr 2022

Sut i lenwi'r ffurflen ymateb yma



Dyma gyfres o gwestiynau ynghylch ein cynlluniau i ddiweddarau gwasanaethau **Gofal Preswyl** yn Rhondda Cynon Taf.



Hoffen ni wybod eich barn chi. Ceisiwch esbonio eich atebion. Nodwch eich sylwadau a'ch syniadau personol hefyd.



Efallai y bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod am gymorth.



Efallai bydd **geiriau glas** yn anodd eu deall. Bydd y geiriau yma'n cael eu hegluro mewn blwch oddi tano.



Pan mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hynny'n golygu **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**.



Dychwelwch y ffurflen yma aton ni erbyn
27 Ionawr 2023.



Cyfeiriad:

Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS
Ymchwil ac Ymgynghori
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX



gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk

Cyflwyniad



Ym mis Rhagfyr 2022, cytunodd Cyngor Rhondda Cynon Taf i wella ei [Gartrefi Gofal Preswyl](#) ac i gyflawni'r canlynol:

Ystyr **Cartref Gofal Preswyl** yw cartref i bobl hŷn er mwyn iddyn nhw gael gofal a chymorth ychwanegol os ydyn nhw'n ei chael hi'n anodd byw ar eu pennau eu hunain.

- Parhau â'r un gwasanaethau yn [llety'r](#) Cyngor yn Nhrealaw, Pentre, Trecynon, Y Ddraenen-wen a Thonysguboriau
- Adeiladu [llety](#) newydd yn Nhreorci
- Adeiladu [llety](#) newydd yng Nglynrhedynog
- Adeiladu [llety](#) newydd yn Aberpennar
- Adeiladu [llety](#) newydd ym Mhentre'r Eglwys

Llety yw ystafell neu adeilad y gall rhywun fyw neu aros ynddo.



Mae'r rhain yn sicrhau bod pobl yn dal i deimlo'n annibynnol tra'u bod nhw'n cael eu cefnogi yn eu cymunedau lleol, ac maen nhw'n canolbwyntio ar les a dewis personol yr unigolion.

Rydyn ni nawr yn gofyn i chi ein helpu ni i wneud rhai penderfyniadau am y pethau yma.

Cadw 5 Cartref Gofal y Cyngor fel maen nhw ar hyn o bryd



Mae hyn yn cynnwys:

- Cwrt Clydach, Trealaw
- Tŷ Pentre, Pentre
- Tegfan, Trecynon
- Cae Glas, Y Ddraenen-wen
- Parc Newydd, Tonysguboriau

Ydych chi'n cytuno â hyn?



Ydw



Nac ydw

Ddim yn
siŵr

**Hoffech chi ddweud rhywbeth arall
am hyn?**

Adeiladu llety newydd yn Nhreforci

Rydyn ni eisiau adeiladu cartref newydd gyda 40 o fflatiau [Gofal Ychwanegol](#) a chynnig 20 gwely dementia preswyl yn Nhreforci.

Gofal Ychwanegol yw pan mae pobl yn byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac mae gofal a chymorth ar gael iddyn nhw os ydyn nhw eu angen.

Ydych chi'n cytuno â hyn?



Ydw



Nac ydw

Ddim yn siŵr

**Hoffech chi ddweud rhywbeth arall
am hyn?**

Adeiladu llety newydd yng Nglynrhedynog

Rydyn ni eisiau adeiladu cartref newydd
gydag 20 o fflatiau [Gofal Ychwanegol](#) a
chynnig 10 gwely dementia preswyl yng
Nglynrhedynog.

Ydych chi'n cytuno â hyn?



Ydw



Nac ydw

Ddim yn
siŵr

**Hoffech chi ddweud rhywbeth arall
am hyn?**

Adeiladu llety newydd yn Aberpennar

Rydyn ni eisiau adeiladu cartref newydd gyda 25 o fflatiau [Gofal Ychwanegol](#) a chynnig 15 gwely dementia preswyl yn Aberpennar.

Ydych chi'n cytuno â hyn?



Ydw



Nac ydw

Ddim yn
siŵr

**Hoffech chi ddweud rhywbeth arall
am hyn?**

Adeiladu llety byw â chymorth newydd ym Mhentre'r Eglwys

Rydyn ni eisiau adeiladu llety newydd gyda
gofal i roi cymorth i oedolion ag
anableddau dysgu ym Mhentre'r Eglwys

Ydych chi'n cytuno â hyn?



Ydw




Nac ydw

Ddim yn
siŵr



**Hoffech chi ddweud rhywbeth arall
am hyn?**




Unrhyw beth arall

**Oes unrhyw beth hoffech chi ei
ddweud am ein cynlluniau?**



Dywedwch ychydig bach amdanoch chi wrthyn ni

Mae angen i ni wybod ychydig amdanoch chi fel bod modd i ni ddeall eich atebion yn well.



Beth yw'ch cod post?

Beth yw eich oedran?

**Pam wnaethoch chi lenwi'r ffurflen
yma?**

Rwy'n byw mewn Cartref Gofal
Preswyl. Os felly, pa un?

Rwy'n aelod teulu/ffrind i berson
sy'n byw yn un o Gartrefi Gofal
Preswyl y Cyngor.

Rwy'n eiriolwr ar gyfer person sy'n byw yn un o Gartrefi Gofal Preswyl y Cyngor.

Staff

Arall

Diolch

Diolch i chi am lenwi'r ffurflen yma.



Dychwelwch y ffurflen yma aton ni erbyn **27 Ionawr 2023**.



Cyfeiriad:

Rhadbost RSBU-HJUK-LSS
Ymchwil ac Ymgynghori
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX



gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk